





## Mae'r ymgynghoriad ar gymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg ar fin cau

Dim ond dau ddiwrnod sydd ar ôl i ddweud eich dweud ar gymwysterau UG a Safon Uwch newydd mewn Cymraeg a Chymraeg Craidd.

Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 12 Medi ar y platfform Dweud eich Dweud. Rydym yn annog athrawon, dysgwyr, rhieni, gofalwyr a phartneriaid addysgol i'n helpu ni i lywio dyfodol dysgu'r Gymraeg fel pwnc

Ewch ati i Ddweud Eich Dweud yma.

### Darllenwch ein blog ar y cymwysterau newydd

Mae Heidi Brown, Uwch Reolwr Cymwysterau sy'n arwain y gwaith diwygio yma, wedi ysgrifennu blog.

## The consultation on new AS and A levels is about to close

There are just two days left to have your say on the new AS and A level qualifications in Cymraeg and Core Cymraeg.

The consultation is open until 12 September on the Have Your Say platform. We're encouraging teachers, learners, parents, carers and educational partners to get involved in this opportunity to contribute to the future of Cymraeg education. Have your say here.

### Read our blog on the new qualifications

Heidi Brown, our Senior Qualifications Manager leading this reform work, has written a blog about our proposals.

CYMWYSTERAU CENEDLAETHOL NATIONAL QUALIFICATIONS

## Ysgolion ledled Cymru yn dechrau cyflwyno'r Cymwysterau Cenedlaethol newydd

Mae athrawon ledled Cymru wedi dechrau addysgu’r Cymwysterau Cenedlaethol cyntaf, carreg filltir bwysig yn y gwaith o ddiwygio addysg 14-16.

Daw’r cymwysterau newydd hyn yn sgil saith mlynedd o waith, a dyma ffrwyth yr arbenigedd, y mewnbwn a’r farn a gafwyd gan athrawon ac arweinwyr ysgolion, dysgwyr a'u teuluoedd, sefydliadau addysg bellach ac uwch, cyrff dyfarnu, cyflogwyr, cyrff llywodraethau a rhanddeiliaid addysg eraill.


Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi ein helpu i lunio ac i ddatblygu'r cymwysterau newydd hyn.


## Schools across Wales begin delivering the new National Qualifications

Teachers across Wales are now teaching the first of the new National Qualifications, marking a major milestone in education reform for 14 to 16 learning.

These new qualifications have been seven years in the making, drawing on the expertise, input and opinions of teachers and school leaders, learners and their families, further and higher education institutions, awarding bodies, employers, governments bodies and other education stakeholders.

We want to thank all those who have helped shape these news qualifications.







## Arholiadau ac asesiadau: gweminar parodrwydd digidol

Rydym ni'n ymuno â Llywodraeth Cymru a CBAC i drafod asesu digidol o fewn y Cymwysterau Cenedlaethol newydd.
Yn ystod y weminar hon byddwn yn trafod y cymorth sydd ar gael i ganolfannau ac yn rhannu awgrymiadau ar gamau y gall ysgolion eu cymryd wrth baratoi i gyflwyno asesiadau digidol. Mae'r weminar yn addas ar gyfer athrawon ac arweinwyr dysgu 14–16, swyddogion arholiadau, staff cymorth TG (yn yr ysgol ac ar lefel awdurdod lleol) ac unrhyw staff

## Examinations and assessments: digital readiness webinar

We're teaming up with Welsh Government and WJEC to discuss digital assessment in the new National Qualifications.
During this webinar we'll outline the support available to centres and share tips on steps schools can take as they prepare to deliver digital assessments. This webinar is suitable for teachers and leaders of 14-16 learning, exams officers, IT support staff (both within

ysgol arall sy'n cefnogi’r gwaith o gyflwyno arholiadau. Cofrestrwch yma.

schools and at a local authority level) and any other school staff supporting the delivery of exams. Register here.




## Ymunwch a'n cynhadledd ar gyfer Swyddogion Arholiadau

Galwad i bob Swyddog Arholiadau! Cofrestrwch nawr ar gyfer ein Cynhadledd Swyddogion Arholiadau bydd yn rhedeg drwy'r wythnos o 15-19 Medi.

Mae'r holl sesiynau wedi'u teilwra yn arbennig ar gyfer anghenion swyddogion arholiadau. Nifer o siaradwyr, yn cynnwys o Cymwysterau Cymru, y Cyd-Gyngor Cymwysterau, CBAC a Pearson.

Bydd Hwb Swyddogion Arholiadau Cymru yn darpau gwybodaeth a llenyddiaeth ategol, a bydd yna gyfle i rwydweithio â chyfoedion a chynrychiolwyr o Cymwysterau Cymru trwy'r fforwm. Ni fydd yr un sesiwn yn para mwy na 90 munud.

## Join our Exam Officers Conference

Calling all exams officers! Book your tickets now for our week-long online Exam Officers Conference starting next Monday (15-19 September).

Our sessions are tailored specifically to meet the needs of exams officers (EOs). There will be a range of speakers including from Qualifications Wales, the Joint Council for Qualifications, WJEC and Pearson. The Wales Exams Officer Hub will provide information and supporting literature, and there will be opportunities to network with peers and representatives from Qualifications Wales via the forum. Each session will be no more than 90 minutes.

All sessions are open to all exam officers. Book here.

Mae'r holl sesiynau yn agored i bawb sy'n swyddog arholiadau. Archebwch yma.




## Canlyniadau'r haf 2025

Ym mis Awst, dyfarnwyd 378,810 o raddau UG, Safon Uwch a TGAU i ddysgwyr yng Nghymru, ynghyd â llawer mwy o raddau cymwysterau galwedigaethol. Os hoffech gal rhagor o wybodaeth am ganlyniadau'r haf, ewch i'n gwefan.

## Summer 2025 results

In August, 378,810 AS, A level and GCSE grades were awarded to learners in Wales, plus many more vocational qualification grades. For more information on the summer results, visit our website.




## Cyfrannwch at ein gwerthusiad o'r Cymwysterau Cenedlaethol diwygiedig

Rydym wedi comisiynu Alma Economics i gynnal gwaith ymchwil er mwyn gwerthuso ein Cymwysterau Cenedlaethol diwygiedig, sy'n cynnwys

## Get involved in our evaluation of the reformed National Qualifications

We have commissioned Alma Economics to carry out evaluation research into our reformed National Qualifications,

TGAU, TAAU, cymwysterau Sylfaen a'r Gyfres Sgiliau.
Byddant yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn dod i ddeall sut a pham mae'r defnydd o'r cynnig cymwysterau wedi newid, ac i ba raddau y mae'r diwygiadau yn gwireddu'r bwriad.

Dros y misoedd nesaf, bydd canolfannau, dysgwyr a rhieni yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn gweithgareddau ymchwil y bydd y cwmni yn cynnal ar ein rhan ni.

Bydd eich mewnbwn yn hanfodol i'n helpu i ddeall newidiadau o ran y dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau ac effeithiau'r diwygiadau.

Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu'n fuan.

comprising GCSEs, VCSEs, Foundation qualifications, and the Skills Suite.
They will be engaging with a wide range of stakeholders to understand how and why the use of the qualification offer is changing, and the extent to which the reforms are achieving their intended benefits.

Over the coming months, centres, learners and parents will be invited to take part in the research activities they are conducting on our behalf.

Your input will be essential in helping us understand changes in learners taking qualifications and the impacts of the reforms.

More information will be shared soon.




## Cadwch y dyddiad!

Gweler cylchlythyr mis nesaf am ragor o fanylion.

## Save the date!

See next month's newsletter for more details.



## Swyddi a chyfleoedd

Rheolwr Cymwysterau - cau heddiw

## Jobs and opportunities

Qualifications Manager - closing today





## Cyhoeddiadau diweddar

Strategaeth y Gymraeg

Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill Chwarterol: Chwarter 1 (Ionawr i Fawrth) 2025 ar gyfer Cymru

## Recent publications

Cymraeg Strategy

Vocational and Other Qualifications Quarterly: Quarter 1 (January to March) 2025 for Wales

## Gohebiaeth ddiweddaraf

Edrychwch ar ein holl lythyrau diweddar at Swyddogion Cyfrifol cyrff dyfarnu cydnabyddedig, Penaethiaid Canolfannau, a rhanddeiliaid eraill ar ein tudalen we bwrpasol.

## Latest correspondence

Take a look at all our recent letters to recognised awarding body Responsible Officers, Heads of Centres, and other stakeholders on our dedicated webpage.

Ar gyfer Penaethiaid, Swyddogion Arholiadau a Swyddogion Cyfrifol: Rydych yn derbyn y postio hwn fel cyswllt cynradd mewn sefydliad rhanddeiliaid. Sylwch ein bod yn cadw eich manylion cyswllt ar ein systemau o dan sail gyfreithiol prosesu er budd y cyhoedd ac yn unol â'n swyddogaethau statudol o dan adran 46 o Ddeddf Cymwysterau 2015. Am fwy o fanylion cyfeiriwch at ein hysbysiad preifatrwydd.

.

For Heads, Exam Officers and Responsible Officers: You are receiving this mailing as a primary contact at a stakeholder organisation. Please note that we retain your contact details on our systems under the legal basis of processing in the public interest and in accordance with our statutory functions under section 46 of the Qualifications Act 2015. For further details please refer to our privacy notice.

© 2022 Microsoft Dynamics. All rights reserved.
Q2 Building, Pencarn Lane, Imperial Park, Coedkernew, Newport NP10 8AR